CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Pwyllgor Cymrodoriaeth
# (adolygwyd Ebrill 2025)

## Cylch Gorchwyl

1. Yn unol â darpariaethau'r Siarter Frenhinol a'i is-ddeddfau (Is-ddeddf 5 (5.4)), mae'r Cyngor wedi ffurfio Pwyllgor Cymrodoriaeth, a fydd yn cynnwys y personau canlynol, sef:

  i. Aelodau *ex officio*:
     Is-lywydd, HASS (a fydd yn gyd-Gadeirydd)
     Is Lywydd, STEMM (a fydd yn gyd-Gadeirydd)
  ii. Tri aelod sydd wedi cael eu penodi gan y Cyngor o blith y Gymrodoriaeth; i gynnwys o leiaf un Cymrawd sydd wedi cael ei ethol trwy ICAP
  iii. Dau aelod sydd wedi cael eu penodi gan y Cyngor o blith y Cyngor.
  iv. Unrhyw berson neu bersonau eraill o'r fath sydd ddim yn fwy na dau, y mae'r Pwyllgor yn meddwl sydd yn addas i'w cyd-ethol fel aelodau.

2. Yn absenoldeb y ddau Gadeirydd, bydd y Cadeiryddion yn cytuno ar y cyd i benodi aelod o'r Pwyllgor a fydd yn Cadeirio'r cyfarfod.

3. Y Cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor fydd 4.

4. Bydd aelodau sydd yn cael eu penodi a'u cyd-ethol yn gwasanaethu am dymor o dair blynedd, neu am gyfnod byrrach fel y gallai'r corff penodi benderfynu. Byddant yn gymwys i wasanaethu am ddim mwy na dau dymor yn olynol, ac ar ôl hynny, bydd cyfnod pellach o dair blynedd yn mynd heibio cyn y bydd unrhyw aelod o'r fath yn gymwys i gael ei ailbenodi.

5. Bydd y Pwyllgor, wrth benodi aelodau, yn ymwybodol o ymrwymiad y Gymdeithas i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i Gynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

6. Yn unol â darpariaethau'r Siarter Frenhinol a'i is-ddeddfau, bydd y Pwyllgor Cymrodoriaeth yn ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud ag enwebu ac ethol Cymrodyr i'r Gymdeithas, a bydd yn cyflwyno adroddiadau ac argymhellion ar y materion hyn i'r Cyngor.

7. Bydd y Pwyllgor yn cyflawni'r canlynol:

*- Proses Ethol ac Enwebu –*

  i. Goruchwylio ac adolygu'r prosesau enwebu ac ethol ar gyfer Cymrodyr a Chymrodyr Anrhydeddus, bob blwyddyn, er mwyn sicrhau eu bod yn briodol
  ii. Adolygu a chymeradwyo amserlen flynyddol ar gyfer enwebiadau ac etholiadau'r Gymdeithas, a sicrhau eu bod yn gydnaws â rheoliadau'r Gymdeithas ac amserlen cyfarfodydd y Cyngor.
  iii. Adolygu a diwygio, y ffurflenni enwebu a'r canllawiau ar gyfer cynigwyr ac enwebeion os oes angen, a sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cydymffurfio â meini prawf ar gyfer etholiadau sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor.

iv. Goruchwylio a monitro'r broses adborth ar gyfer enwebeion aflwyddiannus, a sicrhau bod adborth adeiladol a chyson yn cael ei ddarparu, yn unol â'r broses gymeradwy.

*- Pwyllgorau Craffu–*

i. Adolygu a gwneud argymhellion yn rheolaidd mewn perthynas ag addasiadau i aelodaeth, strwythur, a phroses y Pwyllgorau Craffu, a sicrhau eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Gymdeithas.
ii. Sicrhau bod pob Pwyllgor Craffu yn dilyn prosesau cyson a thryloyw, ac adolygu eu gweithrediadau'n rheolaidd a darparu adborth yn ôl yr angen.
iii. Cynghori'r Is-lywyddion ar yr angen i ddatrys gwrthdaro neu faterion sy'n codi yng ngwaith Pwyllgorau Craffu.

*- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant –*

Cefnogir gan Staff y Gymdeithas, Cenhadon a'r Gweithgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

i. Gweithio i annog ystod ehangach ac ystod fwy o enwebiadau ar draws yr holl bwyllgorau craffu, yn seiliedig ar y gwerthoedd o gefnogi cynhwysiant a hybu amrywiaeth.
ii. Mynd ati'n weithredol i ddarganfod a chwilio am ymgeiswyr cymwys i'w henwebu, gan gymryd i ystyriaeth cydbwysedd y Gymdeithas (er enghraifft, o ran Deddf Cydraddoldeb 2010, cynrychiolwyr pwnc/daearyddol). Gall hyn gynnwys, er enghraifft, annog enwebiadau mewn maes perthnasol neu mewn maes sydd yn cael ei dangynrychioli.
iii. Diffinio targedau neu fesurau canlyniadau ar gyfer y cynllun cydraddoldeb strategol i fonitro effeithiolrwydd polisïau sydd wedi cael eu sefydlu i fynd i'r afael ag amrywiaeth, lle gellir mesur ac adolygu llwyddiant yn y dyfodol. (Gellir newid targedau yn amodol ar benderfyniadau'r Pwyllgor).
iv. Gweithio i gyflawni Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant CDdC.

*- Ymgysylltu a Mobileiddio*

i. Gweithio gyda'r Cenhadon ac eraill i ymgysylltu a mobileiddio'r Gymrodoriaeth.

*- Rheoli Risg -*

Rheoli'r rhannau priodol o'r Gofrestr Rheoli Risg.

8. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o wybodaeth i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau.

9. Bydd y Pwyllgor yn ymarfer y pwerau dirprwyedig a allai gael eu rhoi iddo gan y Cyngor, am gyfnod o'r fath ac o dan amodau o'r fath y gall y Cyngor benderfynu arnynt, yn unol ag is-ddeddf 5.

10. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r Cylch Gorchwyl hwn yn flynyddol.

# Blaengynllun Busnes

Eitemau safonol ar gyfer pob cyfarfod:

- Cyflwyniad y Cadeirydd
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf
- Tracio Camau Gweithredu
- Diweddariad yn erbyn y cynllun cyflenwi strategol (adolygu'r cyflenwi a'r camau gweithredu a gynigir yn erbyn blaenoriaeth strategol 3 "Cymrodoriaeth fwy amrywiol a gweithgar")
    - Cynyddu nifer ac amrywiaeth yr enwebiadau
    - Diweddariad ar y Cylch Etholiadol
- Dyddiadau cyfarfodydd
- Unrhyw Fater Arall

| | Presennol – 2025/26 |
|---|---|
| **Mehefin** | • Canolbwyntio'n benodol ar gynyddu nifer ac amrywiaeth enwebiadau. (Cynllun Cyflenwi)<br>• Pwyllgorau Archwilio - cyfansoddi ac apwyntio Cadeiryddion, Is-gadeiryddion ac aelodau.<br>• + unrhyw eitemau ad hoc |
| **Hydref** | • (Wedi'i oedi ar gyfer 2025/26) Adolygu'r Dystysgrif Argymell Cymrodyr Anrhydeddus i'w lofnodi gan y Cyngor.<br>• Adolygu Cymrodoriaeth Anrhydeddus 2026/27.<br>• Newidiadau arfaethedig i Gylch Etholiad nesaf y Gymrodoriaeth<br>+ unrhyw eitemau ad hoc |
| **Chwefror** | • Adolygu'r Cylch Etholiad (ystadegau enwebu).<br>• Adolygu Cymrodoriaeth Anrhydeddus 2026/25<br>• Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a'r amserlen o bwerau dirprwyedig<br>+ unrhyw eitemau ad hoc |
| **Ebrill** | • Adolygu'r cylch etholiad blaenorol<br>• Gorffen Newidiadau i'r prosesau Enwebu a Chraffu.<br>• Adolygu Blaengynllun Busnes y Pwyllgor.<br>• Cenhadon - diweddariad<br>+ unrhyw eitemau ad hoc |

**Pwerau sydd wedi cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor Cymrodoriaeth:**

D.1 Y pŵer i gymeradwyo a gweithredu amserlen ar gyfer enwebu Cymrodyr ac etholiadau Cymrodyr bob blwyddyn, yn amodol ar gydymffurfio â rheoliadau perthnasol y Gymdeithas ac amserlen cyfarfodydd y Cyngor

D.2 Y pŵer i ddiwygio'r ffurflenni enwebu a'r canllawiau a roddir i gynigwyr/enwebeion, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw newidiadau i'r meini prawf/canllawiau etholiad.

D.3 Y pŵer i osod yr agenda a'r cynnwys ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu, er mwyn sicrhau cysondeb y prosesau

D.4 Y pŵer i gymeradwyo'r broses mewn perthynas â sut y gellir rhoi adborth i enwebeion aflwyddiannus.

D.5 Y pŵer i gymeradwyo aelodaeth a strwythur y Pwyllgorau Craffu, gan gynnwys penodi Cadeiryddion ac aelodau, penodi Aelodau Annibynnol, a chyd-ethol aelodau ychwanegol os oes angen.

D.6 Y pŵer i gynghori'r Is-lywyddion os oes angen cymodi mewn cysylltiad â gwaith y Pwyllgorau Craffu.